

No.

CABINET

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf, 2024.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnet (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks G. John, S.D. Perkes, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd A.Asbrey.

C44 CYHOEDDIAD –

Dechreuodd yr Arweinydd gan hysbysu am rhai faterion cadw tŷ gan nodi bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ei recordio, ac y byddai'n cael ei lanlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

C45 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd S. Sivagnanam.

C46 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2024 fel cofnod cywir.

C47 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

C48 DATBLYGU CYNLLUN CORFFORAETHOL 2025-2030, ASESIAID PERFFORMIAD Y PANEL A CHALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2024/25 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan Bwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel ar 12 Mehefin, 2024 ar y cyd â chyfeiriadau pellach ar y mater gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Mehefin, 2024, Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio ar 18 Mehefin, 2024, Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar 19 Mehefin, 2024 a'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 27 Mehefin 2024.

No.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cysylltiedig, a dywedodd y bu trafodaeth dda yn y cyfarfod. Roedd y pynciau a drafodwyd yn y Pwyllgor yn cynnwys ymgysylltu â chymunedau, proffilio unigolion o ran pobl iau a hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn iawn trwy ddull mwy 'rhyngenedlaethol', defnyddio iaith glir, amcanion hawdd eu deall ac ymholiadau ynghylch hygyrchedd.

Dywedodd yr Arweinydd fod rhai o argymhellion perthnasol y Pwyllgor a gyflwynwyd ar gyfer y Pwyllgor ei hun ac y byddai'r Swyddog Gwasanaethau Democraidd a Chraffu perthnasol yn eu cyfleu.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD y drafodaeth a'r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel a gynhaliwyd ar 12 Mehefin, 2024.

Rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C49 DATBLYGU CYNLLUN CORFFORAETHOL 2025-2030, ASESIAID PERFFORMIAD Y PANEL A CHALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2024/25 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Mehefin, 2024 ar y cyd â chyfeiriadau pellach ar y mater gan Bwyllgor Cartrefi a Chymunedau Diogel ar 12 Mehefin, 2024, Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio ar 18 Mehefin, 2024, Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar 19 Mehefin, 2024 a'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 27 Mehefin 2024.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cysylltiedig, a dywedodd y bu trafodaeth dda yn y cyfarfod. Roedd y pynciau a drafodwyd yn y Pwyllgor yn cynnwys a fyddai Cynllun Corfforaethol tymor byrrach o fudd er y nodwyd mai dyna rôl y Cynllun Cyflawni Blynyddol ac ystyriaethau sero-net.

Dywedodd yr Arweinydd fod rhai o argymhellion perthnasol y Pwyllgor a gyflwynwyd ar gyfer y Pwyllgor ei hun ac y byddai'r Swyddog Gwasanaethau Democraidd a Chraffu perthnasol yn eu cyfleu.

Wedi ystyried y cyfeiriad, Wedi ystyried y geirida, yr oedd wedi hyny

PENDERFYNWYD – BOD y trafodaethau a'r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, 2024 yn cael eu nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C50 DATBLYGU CYNLLUN CORFFORAETHOL 2025-2030, ASESIAID
PERFFORMIAD Y PANEL A CHALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL
2024/25 (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan Bwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 18 Mehefin, 2024 ar y cyd â chyfeiriadau pellach ar y mater gan Bwyllgor Cartrefi a Chymunedau Diogel ar 12 Mehefin, 2024, Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio ar 18 Mehefin, 2024, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Mehefin, 2024, Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar 19 Mehefin, 2024 a'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 27 Mehefin, 2024.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cysylltiedig, a dywedodd y bu trafodaeth dda yn y cyfarfod. Roedd y pynciau a drafodwyd yn y Pwyllgor yn cynnwys y rôl y gallai Aelodau ei chwarae fel rhan o drafodaethau Asesu Perfformiad Panel a chanlyniadau'r arolwg "Gadewch i ni Siarad am Fywyd yn y Fro."

Dywedodd yr Arweinydd fod rhai o argymhellion perthnasol y Pwyllgor a gyflwynwyd ar gyfer y Pwyllgor ei hun ac y byddai'r Swyddog Gwasanaethau Democratiaid a Chraffu perthnasol yn eu cyfleu.

Wedi ystyried y geirda, yr oedd wedi hynny

PENDERFYNWYD – BOD y drafodaeth a'r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 18 Mehefin, 2024 yn cael eu nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C51 DATBLYGU CYNLLUN CORFFORAETHOL 2025-2030, ASESIAID
PERFFORMIAD Y PANEL A CHALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL
2024/25 (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan Bwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar 19 Mehefin, 2024 ar y cyd â chyfeiriadau pellach ar y mater gan Bwyllgor Cartrefi a Chymunedau Diogel ar 12 Mehefin, 2024, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Mehefin, 2024, Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio ar 18 Mehefin, 2024, a'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 27 Mehefin, 2024.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cysylltiedig, a dywedodd y bu trafodaeth dda yn y cyfarfod. Roedd y pynciau a drafodwyd yn y Pwyllgor yn cynnwys sut y cynhyrchodd y Cyngor adroddiadau a chynlluniau ar hyn o bryd mewn perthynas â'i brosesau monitro perfformiad i'w gwneud yn effeithiol ac yn hygyrch, sut y gallai'r cyhoedd fwydo i'r Cynllun Corfforaethol, sut y byddai aseswyr cymheiriaid yn cael eu dewis ac ymholiadau ynghylch y trafodaethau a gafodd Bro Morgannwg gydag Awdurdodau Lleol eraill.

No.

Dyweddod yr Arweinydd fod rhai o argymhellion perthnasol y Pwyllgor a gyflwynwyd ar gyfer y Pwyllgor ei hun ac y byddai'r Swyddogion Gwasanaethau Democraidd a Chraffu perthnasol yn eu cyfleu.

Wedi ystyried y geirda, yr oedd wedi hyny

PENDERFYNWYD – BOD y drafodaeth a'r sylwadau gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 19 Mehefin, 2024 yn cael eu nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C52 DATBLYGU CYNLLUN CORFFORAETHOL 2025-2030, ASESIAID PERFFORMIAD Y PANEL A CHALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2024/25 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan Bwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 27 Mehefin, 2024 ar y cyd â chyfeiriadau pellach ar y mater gan Bwyllgor Cartrefi a Chymunedau Diogel ar 12 Mehefin, 2024, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Mehefin, 2024, Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio ar 18 Mehefin, 2024, a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar 19 Mehefin, 2024.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cysylltiedig, a dywedodd y bu trafodaeth dda yn y cyfarfod.

Dyweddod yr Arweinydd fod rhai o argymhellion perthnasol y Pwyllgor a gyflwynwyd ar gyfer y Pwyllgor ei hun ac y byddai'r Swyddog Gwasanaethau Democraidd a Chraffu perthnasol yn eu cyfleu.

Wedi ystyried y geirda, yr oedd wedi hyny

PENDERFYNWYD – BOD y drafodaeth a'r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2024 yn cael eu nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C53 DEFNYDDIO GWYBODAETH PERFFORMIAD: SAFBWyNT DEFNYDDWYR GWASANAETH A CHANLYNIADAU – CYNGOR BRO MORGANNWG (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Mehefin, 2024 a diolchodd yr Arweinydd i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cysylltiedig a dywedodd y bu trafodaeth dda yn y cyfarfod.

No.

Roedd canfyddiadau'r adolygiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad B. Dywedodd yr Arweinydd fod lefelau uchel o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth mewn rhai meysydd gwasanaeth, yn enwedig Gofal Cymdeithasol ac Addysg, a allai fod yn anodd ar adegau. Cyfeiriodd un sylw Pwyllgor at y Cyngor yn edrych ar ganlyniadau yn hytrach nag allbynnau fel cam cadarnhaol ymlaen.

Cafwyd trafodaeth hefyd ar y materion canfyddedig a godwyd gan breswylwyr a chydabu'r Cyngor fod gwaith i'w wneud ar y datgysylltiad rhwng yr hyn yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei wneud fel y penderfynwyd yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol, cynlluniau gwasanaeth, ac ati, a'r hyn y teimlwyd bod y Cyngor yn ei wneud yn ehangach a oedd yn gofyn am fwy o waith cyfathrebu.

Cyfeiriodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sylwadau at y Cabinet gyda Phenderfyniadau (1) a (2) ynghylch cynnal mewnwelediadau manylach o'r ymatebion a gafwyd er mwyn deall yn well y materion sy'n cael eu codi gan breswylwyr ac i'r Cyngor ystyried dod â gwybodaeth ynghyd o adroddiadau eraill a gweithgareddau'r Cyngor megis Cwynion Corfforaethol a chwynion i Gynghorwyr a oedd yn ffynhonnell wybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol er mwyn deall barn a phrofiadau preswylwyr fel materion parhaus. Penderfyniad (3) oedd i'r Pwyllgor ei hun, a Phenderfyniad (4) i'r Cyngor fyfyrion ar sut y cynhaliwyd ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgynghori gan bob adran unigol o'r Cyngor i sicrhau bod yr un safonau a lefel ymgysylltu yn bwnc i'w drafod ar agenda'r Uwch Dîm Arwain i'w ddatblygu.

Wedi ystyried y geirda, yr oedd wedi hynny

PENDERFYNWYD – BOD y trafodaethau a'r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, 2024 yn cael eu nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C54 DIWEDDARIAD CH4: AMSERLEN RHAGLEN WAITH ARCHWILIO CYMRU 2023/24 – CYNGOR BRO MORGANNWG (CYF) –

Cyflwynwyd cyfeiriad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Mehefin, 2024.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cysylltiedig, a dywedodd fod y Pwyllgor wedi nodi cynnwys yr adroddiad a'i fod wedi cyfeirio'r adroddiad at y Cabinet i'w oruchwyllo.

Wedi ystyried y geirda, yr oedd wedi hynny

PENDERFYNWYD – BOD y trafodaethau a'r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, 2024 yn cael eu nodi.

No.

Rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C55 CYFLWYNO DEISEB – GORUCHWYLLWYR CROESFANNAU YSGOL (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 18 Mehefin, 2024.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cysylltiedig, a dywedodd y bu trafodaeth dda yn y cyfarfod ynghylch cyflwyno deiseb am Oruchwylwyr Croesfannau Ysgolion. Roedd nifer o arbedion wedi'u cyflwyno fel rhan o gynigion cyllideb y llynedd, ac un ohonynt oedd adolygu ac o bosibl rhesymoli patrolau croesfannau ysgolion. Roedd Goruchwylwyr Croesfannau Ysgolion yn aelodau gwerthfawr o'r gymuned ond dros y blynyddoedd roedd wedi bod yn anodd recriwtio i'r rôl, oherwydd y cam-drin a gafwyd gan yrwyr. Roedd yna sefyllfaoedd hefyd lle roedd Goruchwylwyr Croesfannau Ysgolion wedi'u lleoli ar groesfannau ger croesfannau pelican a gerllaw bod traffig wedi dechrau symud tra roeddent yn dal i gynorthwyo plant ar draws y ffordd ac yn cael eu dal mewn sefyllfa beryglus pan ddechreuodd traffig symud wrth y golau gwyrdd.

Roedd y Cyfarwyddwr yn gallu egluro yng nghyfarfod y Pwyllgor, ar ôl adolygu'r sefyllfa a siarad ag ysgolion, nad oedd unrhyw gynlluniau i gael gwared ar wasanaethau croesi â swyddog ym Mro Morgannwg a bod arbedion adrannol wedi'u canfod mewn manau eraill.

Argymhelliad y Pwyllgor oedd eu bod yn cefnogi'r penderfyniad, fel yr amlinellwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor, na ddylid cymryd unrhyw gamau i gael gwared ar batrolau croesfannau presennol yr ysgol nes bod adolygiad wedi'i gynnal fel y bo'n briodol i sicrhau diogelwch plant.

Dywedodd y Cynghorydd John ei fod yn hapus gyda'r swydd a nodwyd gan y Cyfarwyddwr yn y cyfarfod oherwydd yn ei ward roedd dros 1,600 o ddisgyblion yn mynychu ysgolion yn yr ardal a bod Goruchwylwyr Croesfannau Ysgolion yn hanfodol ar gyfer diogelwch disgyblion. Roedd y sefyllfa wedi'i chamddeall yn flaenorol gan mai dim ond adolygu a gynhaliwyd ar y sefyllfa ac y byddai'n parhau fel o'r blaen.

Wedi ystyried y geirda, yr oedd wedi hyny

PENDERFYNWYD – BOD y drafodaeth a'r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 18 Mehefin, 2024 yn cael eu nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C56 ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan Bwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 18 Mehefin, 2024, mewn cydweithrediad â chyfeiriad pellach ar y mater gan Bwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar 19 Mehefin, 2024.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cysylltiedig, a dywedodd y bu trafodaeth dda yn y cyfarfod gyda'r Pwyllgor yn ystyried a thrafod y Strategaeth Coed. Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch a ariannwyd Prosiect Sero yn ddigonol i gyflawni sero carbon erbyn 2030 a dywedodd yr Arweinydd y byddai'n rhan o drafodaethau cyllidebol sydd ar ddod. Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch cyflymder y gwaith gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ond roedd yn gymhleth oherwydd bod pob un o'r gwahanol sefydliadau yn gwneud eu darnau gwaith eu hunain a'r System Draenio Gynaliadwy (SDCau).

Dywedodd yr Arweinydd fod rhai o argymhellion y Pwyllgor a gyflwynwyd ar gyfer y Pwyllgor ei hun, ond roedd y rhai i'w hystyried gan y Cabinet yn ymwneud â'r pryder a godwyd ynghylch 'pwysoli' agenda Prosiect Sero a phwysigrwydd gwneud Prosiect Sero yn ganolog yn y Cynllun Corfforaethol a bod yr adroddiad yn cael ei ddsbarthu i'r holl Aelodau Etholedig, aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phob Cyngor Tref a Chymuned am eu gwybodaeth.

Wedi ystyried y geirda, yr oedd wedi hynny

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD y drafodaeth a'r sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 18 Mehefin, 2024 yn cael eu nodi.
- (2) BOD pryder a godwyd ynghylch 'pwysoli' agenda Prosiect Sero a phwysigrwydd gwneud Prosiect Sero yn ganolog yn y Cynllun Corfforaethol yn cael ei ystyried fel rhan o drafodaethau cyllidebol yn y dyfodol.
- (3) BOD yr adroddiad yn cael ei anfon at yr holl Aelodau Etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned ac aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er gwybodaeth iddynt, os nad yw wedi'i weithredu eisoes.

Rheswm dros y penderfyniadau

- (1-3) Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C57 ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan Bwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar 19 Mehefin, 2024, mewn cydweithrediad â chyfeiriad pellach ar y mater gan Bwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 18 Mehefin, 2024.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cysylltiedig, a dywedodd y bu trafodaeth dda yn y cyfarfod. Roedd un ymholiad yn ymwneud â

No.

gosod goleuadau stryd LED a adroddodd yr Arweinydd bellach ar 96% ym Mro Morgannwg, trafodaeth barhaus gyda Chynghorau Tref a Chymuned, trafodaeth ynghylch a allai fod mwy o wybodaeth am fflyd drydan y Cyngor a gosod biniau cyhoeddus yn eu lle.

Nododd y Cabinet yr adroddiad a bod rhai o argymhellion y Pwyllgor a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ei hun ac i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu fynd i'r afael â nhw.

Argymhellwyd y dylid adroddiadau'r Cyngor mewn cysylltiad â phrosesau caffael, roi ystyriaeth i leihau ôl troed carbon y Cyngor yng nghanau cyn-gomisiynu a dadgomisiynu'r broses, yn ogystal â'r ymdrechion sydd eisoes yn bodoli i leihau carbon i gefnogi uchelgais y Cyngor i fod yn sero net erbyn 2030. Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor eisoes yn mabwysiadu dull seiliedig ar systemau ar draws y sefydliad ac y byddai'r argymhelliad yn cael ei archwilio.

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd fod yr adroddiad fel y cyflwynwyd yn cael ei ddsbarthu i'r holl Aelodau Etholedig, pob Cyngor Tref a Chymuned ac aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er gwybodaeth iddynt.

Wedi ystyried y geirda, yr oedd wedi hyny

(1) BOD y drafodaeth a'r sylwadau gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar 19 Mehefin, 2024 yn cael eu nodi.

(2) Y DYLAI adroddiadau'r Cyngor mewn cysylltiad â phrosesau caffael roi ystyriaeth benodol i leihau ôl troed carbon y Cyngor yng nghanau cyn-gomisiynu a dadgomisiynu'r broses, yn ogystal â'r ymdrechion sydd eisoes yn bodoli i leihau allyriadau carbon i gefnogi uchelgais y Cyngor i fod yn sero net erbyn 2030.

(3) BOD yr adroddiad, fel y'i cyflwynwyd, yn cael ei anfon at yr holl Aelodau Etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned ac aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er gwybodaeth iddynt, os nad yw wedi'i weithredu eisoes.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-3) Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C58 DIWEDDARIAD AR STRATEGAETH Y BOBL (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 19 Mehefin, 2024.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pwyllgor am y cyfeiriad a'r sylwadau cysylltiedig, a dywedodd y bu trafodaeth dda yn y cyfarfod.

Cwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor oedd a fyddai'r Cyngor yn bwriadu datblygu ei brosesau recriwtio a dethol i gefnogi ymgeiswyr niwroamrywiol ac a oedd y Cyngor yn gwneud ymdrechion i ddatblygu ei weithlu presennol o ystyried bod

No.

bylchau o hyd o fewn galwedigaethau penodol ar draws y Cyngor, ac roedd y ddau ohonynt yn feysydd gwaith parhaus a chryf i'r Cyngor lle'r oedd ymdrechion i dyfu'r gweithlu presennol wedi gweld llwyddiant gwirioneddol o fewn ei Raglen Gofal Cymdeithasol, Rhaglen Llwybr Carlam i Ofal a'r Rhaglen Quick Start hyd yn hyn. Roedd y Cyngor hefyd wedi cymryd camau i gynyddu ei raglen brentisiaethau ac i annog prentisiaethau gan raddedigion ar draws gwahanol sectorau'r Cyngor.

Cafwyd sgysiaiu ynghylch gwerth Rhwydweithiau Staff y Cyngor yn ogystal â'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â'r Rhwydweithiau hynny i wella gweithlu'r Cyngor gyda sefydlu a defnyddio ei rwydweithiau amrywiol.

Nododd y Pwyllgor fod yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd, ar gynnydd yn erbyn Strategaeth Pobl y Cyngor, yr adborth a ddarparwyd a thrafodaethau ar weithgarwch yn y dyfodol, yn cael eu nodi a'u cyfeirio at y Cabinet bod adroddiad ar fuddion a chanlyniadau cadarnhaol Rhwydweithiau Amrywiaeth y Cyngor, fel y cyfeirir ato ym mharagraffau 2.32 – 2.34 o'r adroddiad, yn cael ei ddsbarthu i holl Aelodau Etholedig y Cyngor drwy e-bost maes o law.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Williams at y Rhaglen Llwybr Carlam i Ofal Cymdeithasol a chysylltiad â phrentisiaethau mewn Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ac roedd yr effaith a gafodd hynny ar y gweithlu o ran datblygu staff mewnol ac annog pobl i ymuno â'r gwasanaeth yn hynod bwysig. Roedd wedi gweld yr effaith a gafodd gweithio gyda'r rhwydwaith amrywiol a rhoi Cyngor mwy cynhwysol ar waith a oedd yn cydnabod demograffeg Bro Morgannwg.

Cytunodd yr Arweinydd â phwysigrwydd datblygu staff y Cyngor a gwerthfawrogi'r profiad a gafodd pobl wrth weithio mewn gwahanol adrannau fel rhan o'u gyrfaeodd a ddatblygodd eu sgiliau.

Wedi ystyried y geirda, yr oedd wedi hynny

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y drafodaeth a'r sylwadau gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar 19 Mehefin, 2024 yn cael eu nodi.

(2) Dosbarthu adroddiad ar fanteision a chanlyniadau cadarnhaol Rhwydweithiau Amrywiaeth y Cyngor, fel y cyfeirir atynt ym mharagraffau 2.32 – 2.34 o'r adroddiad, i holl Aelodau Etholedig y Cyngor drwy e-bost maes o law.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-2) Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C59 FFORWM YMGYNGHOROL AR Y CYD –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd a gynhaliwyd ar 29 Ebrill, 2024.

No.

Roedd y Cyngorydd Perkes wedi mynychu'r cyfarfod a oedd yn ystyried Diweddariad Rhwydweithiau Staff Bro Morgannwg, diweddariadau ynghylch Rhwydwaith Abl (y rhwydwaith staff anabledd), y Rhwydwaith Staff Amrywiol a chyflwyniad ynghylch recriwtio.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod y Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd a gynhaliwyd ar 29 Ebrill, 2024 yn cael eu nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi'r cofnodion.

C60 RHAGLENNI GWAITH CHWARTEROL Y CABINET – EBRILL I FEHEFIN 2024 A GORFFENNAF I MEDI 2024 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd cynnwys, ymgysylltu ac ymgynghori ag Aelodau ynglŷn â'r cynnydd hyd yma mewn perthynas â Rhaglenni Gwaith Chwarterol y Cabinet am y cyfnod rhwng Ebrill a Mehefin 2024 a chadarnhau'r Rhaglen Waith Chwarterol ar gyfer Gorffennaf i Fedi 2024.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) CYTUNO ar y diweddariadau i Raglen Waith Chwarterol y Cabinet ar gyfer y cyfnod Ebrill i Fehefin 2024 ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
- (2) CYMERADWYO Rhaglen Waith Chwarterol y Cabinet o fis Gorffennaf i fis Medi 2024 sydd ynghlwm yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Monitro cynnydd.
- (2) Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer y cyfnod mis Gorffennaf i fis Medi 2024.

C61 DEFNYDDIO PWERAU ARGYFWNG Y PRIF WEITHREDWR (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a oedd â'r diben o hysbysu'r Cabinet ynghylch ymarfer Pwerau Brys gan y Prif Weithredwr ers yr adroddiad diwethaf ar 23 Mai, 2024.

No.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Williams yn benodol at Baragraff 2.1(a) ynghylch Hyb Lles Gorllewin y Fro ar gyfer Oedolion Hŷn a Phobl sy'n Byw gyda Dementia ac roedd yn gwerthfawrogi'r defnydd o bwerau brys i alluogi Swyddogion i weithredu'n gyflym i gefnogi darpariaeth ardderchog.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o Bwerau Brys y Prif Weithredwr yn cael ei nodi.

Rhesymau dros y penderfyniadau

Rhoi gwybod i'r Cabinet.

C62 CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY (CGHT) (DA/CLC) (CRAFFU – YR AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) –

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd galluogi'r Cabinet i ystyried a chymeradwyo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT). Dogfen fyw oedd y CGHT a gellid gwneud newidiadau fel y mynnai amgylchiadau, er enghraifft, newidiadau mewn deddfwriaeth.

Roedd y Cynghorydd Williams wedi mynychu cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol lle trafodwyd egwyddorion y CGHT, y rhwydwaith ac amrywiol welliannau. Nodwyd y newidiadau i hygyrchedd llwybrau troed ym Mro Morgannwg yn y cyfarfod hwnnw, gan gynnwys hygyrchedd cadeiriau olwyn, a gafodd effaith gadarnhaol ar drigolion lleol ac a oedd yn rhan o'r CGHT, er na nodwyd yn benodol fel budd.

Dywedodd yr Arweinydd mai agwedd gadarnhaol arall oedd argaeledd llwybrau yn electronig er mwyn gallu dewis pa lwybrau oedd ar gael a chyda mynediad uniongyrchol llawer gwell.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) CYMERADWYO'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) sydd ynghlwm fel Atodiad A i'r adroddiad fel fersiwn newydd y Cyngor a'i fabwysiadu mewn egwyddor y cytunwyd arno yn amodol ar ystyriaeth gan Bwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd.

(2) BOD Adroddiad Monitro Blynyddol y CGHT yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd i'w ystyried.

No.

(3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Datblygu Cynaliadwy mewn ymgynghoriad â'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy i wneud newidiadau teipograffig neu mân newidiadau eraill yn ôl yr angen cyn ei gyhoeddi neu yn ystod oes y Cynllun pe bai angen gwneud hynny.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd statudol yn llawn o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CGHT) 2000 i adolygu a chyhoeddi bob 10 mlynedd, ei Gynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT), yn amlinellu sut yr oedd yn cynnig cyflawni ei Amcanion Lles a Gwella i gynnal, gwella a rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhwydwaith hawliau tramwy i'r cyhoedd.

(2) Sicrhau craffu priodol ar yr adroddiad.

(3) Gwneud newidiadau teipograffig neu fân newidiadau eraill yn ôl yr angen heb fod angen ceisio cymeradwyaeth y Cabinet.

C63 DIWEDDARIAD AR YR YMGYNGHORIAD AR Y CYNNIG I GREU CANOLFAN ADNODDAU ARBENIGOL CYFRWNG CYMRAEG YN YSGOL GWAUN Y NANT O FIS MEDI 2024 (ACG) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd hysbysu'r Cabinet o ganlyniadau'r ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd ar y cynnig i greu Canolfan Adnoddau Arbenigol Gymraeg yn Ysgol Gwaun y Nant o fis Medi 2024.

Trafodwyd rhai o'r materion a godwyd fel rhan o'r ymgynghoriad a'r ymatebion i'r materion hynny ym mharagraffau 2.9 i 2.13 yr adroddiad.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'r ddogfen ymgynghori (sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad), yr adroddiad Ymateb Ymgynghori (sydd ynghlwm yn Atodiad B i'r adroddiad) ac atodiadau eraill sydd wedi'u cynnwys fel rhan o'r adroddiad, gan gynnwys yr Aseidiadau Effaith ar y Gymuned a Chydraddoldeb yn Atodiadau C a D, yn y drefn honno, i greu Canolfan Adnoddau Arbenigol Cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gwaun y Nant o fis Medi 2024.

(2) CYMERADWYO'r cynnig i greu Canolfan Adnoddau Arbenigol Cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gwaun y Nant o fis Medi 2024 trwy gyhoeddi'r cynigion ar ffurf hysbysiad statudol.

No.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei hystyried gan y Cabinet wrth ddod i benderfyniad ynghylch a ddylid cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynigion.

(2) Sicrhau bod y gallu i ddarparu darpariaeth integredig ar gyfer disgyblion â diagnosis o gyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth a'r rhai sy'n profi anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, rhyngweithio neu reoleiddio sylweddol, gan adlewyrchu ymrwymadau'r Cyngor i fodloni gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 (Deddf ADYTA 2018) ac yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 10 mlynedd a strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

C64 ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG 2023-24 (ACG) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT A PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Adroddiad Monitro Cymreig Blynyddol y Cyngor a'r wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Hyrwyddo 5 mlynedd.

Dywedodd y Cynghorydd Williams ei fod yn edrych ymlaen at drafod y mater yn y Pwyllgorau Craffu perthnasol.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) CYMERADWYO'r Adroddiad Monitro'r Gymraeg Blynyddol ar gyfer 2023-24 (ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad) a'r Diweddariad ar Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg (ynghlwm fel Atodiad 2 i'r adroddiad) mewn egwyddor, yn amodol ar ystyriaeth gan y Pwyllgorau Craffu Dysgu a Diwylliant a Pherfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

(2) CYFEIRIO'r adroddiad a'r atodiadau at y Pwyllgorau Craffu Dysgu a Diwylliant a Pherfformiad ac Adnoddau Corfforaethol i'w hystyried ac os cânt eu cymeradwyo gan y Pwyllgorau, yna cyhoeddi'r adroddiad.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Caniatáu i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswydd adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg fel rhan o Safonau'r Gymraeg.

(2) Galluogi'r Pwyllgorau Craffu Dysgu a Diwylliant a Pherfformiad ac Adnoddau Corfforaethol i ystyried yr adroddiad (a'r atodiadau) cyn ei gyhoeddi.

C65 GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG PARHAOL – CAU STRYD YSGOL HEOL DRYDEN, PENARTH (WCA) (CRAFFU – YR AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad. Diben hyn oedd cytuno ar wneud y cau stryd ysgol arbrofol ar Dryden Road ar gyfer Ysgol Gynradd Fairfield, Penarth, yn orchymyn parhaol.

Roedd Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Arbrofol (GRhT) wedi bod ar waith ers mis Ebrill 2023 a rhoddodd amser i Swyddogion asesu llwyddiant neu fel arall cau strydoedd ysgol fel y math cyntaf o'i fath ym Mro Morgannwg. Cynhwyswyd adborth gan breswylwyr a oedd wedi bod yn gadarnhaol ym Mharagraff 2.7 yr adroddiad yn ogystal ag Atodiad D i'r adroddiad. Roedd Atodiad C i'r adroddiad yn cyfeirio at gyflymderau cerbydau a chyfeintiau traffig a aseswyd cyn eu gweithredu a'u monitro yn ystod cau arbrofol strydoedd ysgol, gydag ychydig iawn o draffig yn dod i mewn ar adegau o fod ar gau.

Dywedodd y Cynghorydd Birch, fel Aelod ward lleol, fod y GRhT arbrofol wedi bod yn gam poblogaidd gyda rhieni. Parhaodd problemau gyda pharcio anystyriol a oedd yn bodoli cyn y peilot ond a oedd wedi cael derbyniad da yn lleol. Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod Aelod arall y ward leol, y Cynghorydd Buckley, hefyd wedi bod yn gefnogol o'r peilot.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD hysbysiad cyhoeddus yn cael ei hysbysebu ar gyfer Gorchymyn Rheoli Traffig Arbrofol i gyflwyno cau stryd ysgol ar Dryden Road, Penarth fel y nodir yn Atodiad A a B yr adroddiad, i'w wneud yn barhaol.

(2) BOD Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Gwasanaethau Tai, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau yn cael ei awdurdodi i gytuno ar y dyluniad terfynol a'r hyd a lled ar gyfer y cau stryd ysgol ac awdurdodi'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd a Chyfreithiol i weithredu unrhyw Orchmynion cyfreithiol i weithredu'r Cynllun.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Rhoi'r awdurdod angenrheidiol i symud ymlaen gyda'r gorchymyn rheoli traffig parhaol.

(3) Rhoi'r awdurdod angenrheidiol i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu yn y modd mwyaf priodol ac effeithlon.

**C66 ADNEWYDDU GORCHMYNION GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS
AR GYFER ATAL YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL SY'N
GYSYLLTIEDIG AG ALCOHOL (WCA) (CRAFFU – YR AMGYLCHEDD AC
ADFYWIO) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd sicrhau bod rheolaethau a threfniadau rheoli effeithiol o hyd gyda'r nod o atal achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol mewn mannau cyhoeddus.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod Gorchmynion o'r fath wedi bod ar waith o'r blaen a'u bod angen eu hadnewyddu gyda mân amrywiadau i'r Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMCau) presennol, mewn perthynas ag atal Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol (YGC). Ni fyddai Gorchmynion o'r fath yn gwahardd yfed alcohol yn yr ardaloedd a gynigiwyd ond yn darparu dull o reoli pe bai achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cyfeiriodd paragraff 2.12 o'r adroddiad at gynnwys Gorchmynion mewn deuddeg safle newydd o ganlyniad i ymgynghoriad a sylwadau a dderbyniwyd gan y cyhoedd ac Aelodau Etholedig. Cynhwyswyd ymatebion yr arolwg yn Atodiad A a ddangosodd gefnogaeth i reolaethau o'r fath yn yr ardaloedd a ddisgrifir am dair blynedd arall.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) CYTUNO ar y cynnig i adnewyddu'r Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus presennol ar gyfer parthau alcohol rheoledig a bod y Gorchmynion yn cael eu cyfeirio at y Cyngor Llawn, i'w hystyried.
- (2) NODI cynnwys canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a chynnwys ardaloedd cyfyngedig newydd.
- (3) BOD yr ardaloedd ychwanegol arfaethedig fel rhan o'r broses adnewyddu yn cael eu cytuno a'u hymgorffori yn y Gorchmynion i'w hystyried gan y Cyngor Llawn.
- (4) BOD penderfyniadau'r Cabinet o ran yr adroddiad yn cael eu cyfeirio at y Cyngor Llawn i'w hystyried.
- (5) CYTUNO ar y defnydd o'r weithdrefn frys a nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor mewn perthynas ag argymhellion 1, 2, 3 a 4 i ganiatáu i'r mater gael ei ystyried yn y Cyngor Llawn ar 15 Gorffennaf, 2024.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Cynorthwyo'r Cyngor i reoli Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol yn gadarn yn ei gyrchfannau, canol trefi a mannau agored cyhoeddus.
- (2) Sicrhau bod y Cyngor yn ystyried barn y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill a bod y Gorchmynion yn adlewyrchu materion cyfredol.
- (3) Sicrhau bod gan y Cyngor a'r Heddlu y pwerau priodol i ddiogelu ansawdd bywydau'r rhai sy'n byw, gweithio ac ymweld ag ardaloedd cyfyngedig a chaniatáu i'r mwyafrif o'r dinasyddion sy'n parchu'r gyfraith ddefnyddio a mwynhau mannau cyhoeddus, yn ddiogel rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- (4) Roedd cyflwyno ac adnewyddu Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus yn fater i'w benderfynu gan y Cyngor Llawn.
- (5) Galluogi'r Gorchmynion i gael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn sydd ar gael i sicrhau eu cyflwyniad prydlon os cytunir arnynt.

C67 ADNEWYDDU GORCHMYNION DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS - RHEOLAETHAU CŴN (WCA) (CRAFFU – YR AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd sicrhau bod rheolaethau a threfniadau rheoli effeithiol o hyd, gyda'r nod o wella ymddygiad perchnogion cŵn anghyfrifol a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â chŵn a baw cŵn.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod Gorchmynion o'r fath wedi bod ar waith o'r blaen a'u bod angen eu hadnewyddu gydag amrywiadau i'r Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMCau) presennol, at ddibenion rheoli cŵn.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y mater ac roedd llawer o'r ymatebion a gafwyd yn gadarnhaol am y Gorchmynion arfaethedig. Cyfeiriodd Atodiad A at 64% o'r cyhoedd yn cytuno â'r cynnig i gadw'r holl reolaethau cŵn presennol ym Mro Morgannwg, cytundeb cryf ynghylch symud carthion o'r holl briffyrdd a llwybrau troed mabwysiedig a rheolaethau cŵn tymhorol yn Aberogwr.

Cynigiodd y Cynghorydd Wilson Argymhelliad ychwanegol i'r Cabinet i gytuno bod Maes Hamdden Llanilltud Fawr yn cael ei ychwanegu at y cynigion sydd i'w hystyried yn y Cyngor Llawn, gyda gorfodaeth yn amodol ar gytundeb Cyngor Tref Llanilltud Fawr oedd yn berchen ar y tir. Roedd Cynghorwyr Llanilltud Fawr yn cefnogi i'r ardal honno gael ei chynnwys yn y cynigion a byddai'n rhaid gofyn am gytundeb gyda Chyngor Tref Llanilltud Fawr cyn i'r mater gael ei ystyried yn y Cyngor Llawn ar 15 Gorffennaf, 2024.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD y cynnig o adnewyddu'r Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus presennol ar gyfer rheolaethau cŵn yn cael ei gymeradwyo.
- (2) NODI cynnwys canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus
- (3) BOD yr ardaloedd ychwanegol arfaethedig fel rhan o'r broses adnewyddu yn cael eu cytuno a'u hymgorffori yn y Gorchmynion i'w hystyried gan y Cyngor Llawn.
- (4) BOD penderfyniadau'r Cabinet o ran yr adroddiad yn cael eu cyfeirio at y Cyngor Llawn i'w hystyried.
- (5) CYTUNO ar y defnydd o'r weithdrefn frys a nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor mewn perthynas â phenderfyniadau 1, 2, 3, 4 a 6 i ganiatáu i'r mater gael ei ystyried yn y Cyngor Llawn ar 15 Gorffennaf, 2024.
- (6) YN amodol ar gytundeb ffurfiol gyda Chyngor Tref Llanilltud Fawr, bod Maes Hamdden Llanilltud Fawr yn cael ei ychwanegu at y cynigion i'w hystyried yn y Cyngor Llawn, gyda gorfodaeth yn amodol ar gytundeb Cyngor Tref Llanilltud Fawr sy'n berchen ar y tir.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Fel bod gan y Cyngor Orchmynion cadarn ar waith ar gyfer rheoli cŵn ar briffyrdd mabwysiedig, llwybrau troed, cyrchfannau / traethau, canol trefi, caeau chwaraeon a manau agored cyhoeddus.
- (2) Sicrhau bod y Cyngor yn ystyried barn y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill a bod y Gorchmynion yn adlewyrchu materion cyfredol.
- (3) Sicrhau bod gan y Cyngor bwerau priodol i amddiffyn ansawdd bywydau'r rhai a fu'n byw, gweithio ac ymweld â'r Fro.
- (4) Roedd cyflwyno ac adnewyddu Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus yn fater i'w benderfynu gan y Cyngor Llawn.
- (5) Sicrhau y gellid ystyried y Gorchmynion yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn ac os cytunir arnynt, caiff ei gyflwyno'n brydlon yn dilyn y cyfarfod.
- (6) Cynnwys Maes Hamdden Llanilltud Fawr i'r cynigion, gyda chefnogaeth Aelodau'r ward leol a chytundeb gyda Chyngor Tref Llanilltud.

C68 AIL-GOMISIYNU'R DDARPARIAETH O OFAL PLANT AR GYFER DECHRAU'N DEG YN COLCOT, Y BARRI, BRO MORGANNWG (GCI) (CRAFFU – BYW YN IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio awdurdod i ailgomisiynu contract presennol yn ymwneud â darparu gofal plant ar gyfer Rhaglen Dechrau'n Deg Bro Morgannwg o fewn Colcot, y Barri a'r awdurdod dirprwyol i ddyfarnu'r contract i'r darparwr llwyddiannus.

Dywedodd y Cynghorydd Williams, er bod yr adroddiad yn dod o fewn y Portffolio Gofal Cymdeithasol ac lechyd ei bod yn bwysig cydnabod y gwaith a wnaed gyda'r Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg gan fod llawer o'r gwaith yn draws-gyfarwyddiaeth. Er bod y rhaglen yn darparu gwasanaethau i blant 0-3 oed a 2-3 oed, roedd yn bwysig cydnabod bod darpariaeth hefyd i rieni a oedd yn rhan o'r broses dendro.

Croesawodd y Cynghorydd Birch yr adroddiad ac roedd yn falch o weld cyfranogiad rhieni yn y rhaglen ac yn cymryd rhan weithredol mewn darpariaeth barhaus. Y clwstwr o ysgolion yn y Barri oedd rhai o'r rhai mwyaf difreintiedig ym Mro Morgannwg a byddai'r rhaglen yn gweithio tuag at wella cyfleoedd bywyd plant.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac lechyd, cael eu hawdurdodi i ymgymryd â phroses dendro gystadleuol ar gyfer darparu gwasanaethau Dechrau'n Deg yn Colcot, y Barri.
- (2) BOD Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac lechyd, cael eu hawdurdodi i ddyfarnu'r contract(au) ar gyfer y gwasanaeth am gyfnod cychwynnol o ddwy flynedd gyda'r opsiwn i ymestyn am hyd at ddwy flynedd arall, ar ôl cwblhau'r broses dendro.
- (3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, i baratoi a gweithredu contract gyda'r cynigydd llwyddiannus.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Galluogi'r Gyfarwyddiaeth i ymgymryd â phroses dendro a fyddai'n darparu gofal plant Dechrau'n Deg yn Colcot, y Barri mewn ffordd gost-ffeithiol a oedd yn bodloni gofynion Canllawiau Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru a safonau gofynnol Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

No.

(2) Sicrhau bod y gwasanaeth ar waith am y ddwy flynedd nesaf gyda'r potensial i'w ymestyn am ddwy flynedd arall os oes angen.

(3). Sicrhau bod yr awdurdod a'r ddogfennaeth briodol ar waith i gwblhau'r contract.

C69 CONTRACT AR GYFER DARPARU GOFAL PLANT AR GYFER DECHRAU'N DEG YN NHREGATWG, Y BARRI, BRO MORGANNWG (GCI) (CRAFFU – BYW YN IACH A GOFAL CYMDEITHASOL) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, oedd yn debyg i'r eitem agenda flaenorol ond ar faes gwahanol, a'i ddiben oedd ceisio awdurdod i ymgymryd â phroses dendro yn ymwneud â darparu gofal plant ar gyfer Rhaglen Dechrau'n Deg Bro Morgannwg o fewn y lleoliad ar dir Ysgol Gynradd Tregatwg yn y Barri a cheisiodd awdurdod dirprwyedig i ddyfarnu'r contract i'r darparwr llwyddiannus.

Roedd y Cynghorydd Birch yn falch o gymeradwyo'r adroddiad a dywedodd fod gan Ysgol Gynradd Tregatwg eisoes fentrau fel Bocs Bwyd a boreau coffi a gafodd effaith gadarnhaol ar deuluoedd ac a oedd yn cynnwys rhieni a gofalwyr ar agweddau ar fywyd yr ysgol.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac lechyd, cael eu hawdurdodi i ymgymryd â phroses dendro gystadleuol ar gyfer darparu gwasanaethau Dechrau'n Deg yn Nhregatwg, y Barri.

(2) BOD Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac lechyd, cael eu hawdurdodi i ddyfarnu'r contract(au) ar gyfer y gwasanaeth am gyfnod cychwynnol o ddwy flynedd gyda'r opsiwn i ymestyn am hyd at ddwy flynedd arall, ar ôl cwblhau'r broses dendro.

(3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd, i baratoi a gweithredu contract gyda'r cynigydd llwyddiannus.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Galluogi'r Gyfarwyddiaeth i ymgymryd â phroses dendro a fyddai'n darparu gofal plant Dechrau'n Deg yn Nhregatwg, y Barri mewn ffordd gost-effeithiol a oedd yn bodloni gofynion Canllawiau Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru a safonau gofynnol Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

No.

(2) Sicrhau bod y gwasanaeth ar waith am y ddwy flynedd nesaf gyda'r potensial i'w ymestyn am ddwy flynedd arall os oes angen.

(3) Sicrhau bod yr awdurdod a'r ddogfennaeth briodol ar waith i gwblhau'r contract.

C70 ADRODDIAD YMGYNGHORI CYCHWYNNOL AR Y STRATEGAETH A FFEFRIR AR GYFER CYNLLUN DATBLYGU LLEOL (CDLL) NEWYDD BRO MORGANNWG 2021-2036 (YCCGR) (CRAFFU – YR AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad ar ran yr Aelod Cabinet, a'i ddiben oedd cynghori'r Cabinet am y materion a godwyd drwy sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Chwefror 2024 mewn perthynas â'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Bro Morgannwg 2021-2036.

Roedd y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLIN wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus deng wythnos rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Chwefror 2024 ac roedd yr adroddiad yn nodi'r materion a godwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw a sut yr oedd yr ymatebion wedi'u hystyried yn yr adroddiad.

Roedd y Strategaeth a Ffefrir yn nodi faint o dwf fyddai'n cael ei ddarparu ym Mro Morgannwg rhwng 2021 a 2036 o ran poblogaeth, cartrefi a swyddi, gyda thwf yn cael ei fodloni yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy a oedd yn lleihau'r angen i deithio, ceisio cydleoli tai gyda chyflogaeth a lleoliadau a wasanaethir yn dda gan drafnidiaeth gyhoeddus.

Cynhaliwyd ymgysylltu mewn nifer o ffyrdd ar y Strategaeth a Ffefrir, gan gynnwys sesiynau ymgysylltu ar-lein ac wyneb yn wyneb ar draws Bro Morgannwg, yn ogystal â sesiynau gydag Aelodau Etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned a grwpiau rhanddeiliaid penodol fel Fforwm 50+ a'r Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb. Gwnaethpwyd cyfanswm o dros 3,000 o sylwadau gan 857 o unigolion a sefydliadau. Yn benodol, roedd cynrychiolaeth gan Lywodraeth Cymru yn datgan eu bod yn ystyried y Strategaeth a Ffefrir i gydymffurfio â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: Cymru'r Dyfodol, gyda graddfa twf ar lefel briodol ar gyfer safle Bro Morgannwg o fewn ardal twf cenedlaethol. Roedd dosbarthiad gofodol y twf hwnnw i leoliadau cynaliadwy yn cael ei ystyried yn briodol ac yn unol â pholisi cenedlaethol. Gwnaethpwyd sylwadau gan randdeiliaid eraill fod graddfa'r datblygiad yn rhy uchel, ac roedd eraill yn ystyried ei fod yn rhy isel.

Gwnaeth y CDLIN ddarpariaeth ar gyfer 8,679 o dai newydd, o'i gymharu â 10,400 yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) mabwysiedig presennol. Roedd lefel twf CDLIN yn lefel ganolrifol, gyda senarios gros uwch ac is yn cael eu profi. Roedd y cyflenwad tai yn cynnwys dyraniadau tai newydd, safleoedd ymroddedig, a lwfans ar gyfer safleoedd annisgwyl heb eu dyrannu.

Roedd y CDLI mabwysiedig yn cynnwys dyraniadau tai oedd cyfanswm o dros 8,000 o anheddau newydd. Dangosodd y Strategaeth a Ffefrir gan y CDLIN

No.

ddyrianiad mwy cymedrol o hyd at 2,750 o gartrefi newydd ar safleoedd newydd, neu 32% o'r ddarpariaeth, ynghyd â 2,600 o gartrefi eraill ar safleoedd yn y CDLI mabwysiedig a oedd wedi'u symud ymlaen.

Roedd safleoedd allweddol yn y CDLIN mewn rhannau o Fro Morgannwg gyda'r lefelau uchaf o angen tai fforddiadwy ac roeddent yn gyfle gwirioneddol i ddarparu cartrefi i'r rhai mewn angen tai drwy gyllid Adran 106.

Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori yn gwrthwynebu'r safleoedd allweddol a nodwyd yn y Strategaeth a Ffefrir, gyda materion tebyg yn cael eu codi ar draws y pum prif safle gan gynnwys effaith datblygiadau newydd ar yr amgylchedd naturiol a gallu'r seilwaith presennol i ymdopi â mwy o alw. Roedd yr adroddiad ymgynghori cychwynnol yn mynd i'r afael â'r pwyntiau allweddol hynny ac yn nodi'r dystiolaeth wedi'i pharatoi i gefnogi'r Cynllun Datblygu a mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd.

Roedd yr ymgynghoriad yn caniatáu i safleoedd newydd gael eu cyflwyno fel rhan o ail alwad am safleoedd ymgeisiol, gyda 14 o safleoedd newydd yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r broses, a 24 safle newydd gyda diwygiadau ffiniau neu ddefnydd a fyddai bellach yn cael eu hasesu i bennu eu haddasrwydd i'w cynnwys yn y Cynllun ar Adnau.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.
- (2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio i'w ystyried. Os na fydd y Pwyllgor yn codi unrhyw faterion pellach i'w hystyried gan y Cabinet, bod yr adroddiad yn cael ei gyfeirio i Gyfarfod y Cyngor Llawn ar 30 Medi, 2024 ar gyfer:
 - a) cymeradwyo'r camau gweithredu yn yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol;
 - b) cymeradwyo Strategaeth a Ffefrir y CDLIN fel sail ar gyfer y gwaith parhaus o baratoi'r CDLIN Wedi'i Adneuo.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Amlinellu i'r Aelodau y materion a godwyd yn ystod yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus 10 wythnos ar y Strategaeth a Ffefrir gan y CDLIN.
- (2) Ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y newidiadau arfaethedig i'r Strategaeth a Ffefrir fel y nodwyd yn yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol a galluogi'r swyddogion i symud ymlaen i baratoi'r CDLIN Wedi'i Adneuo yn unol â Chytundeb Cyflawni cymeradwy'r Cyngor.